



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Gwybodaeth ategol ar gyfer dysgu mewn ysgolion a lleoliadau o 15 Mawrth

Mae'r diweddariad hwn wedi'i ddrafftio ar gyfer ysgolion a lleoliadau wrth iddynt ddychwelyd i addysgu ar y safle ar gyfer pob dysgwr.

Cyhoeddwyd gyntaf: 11 Mawrth 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 11 Mawrth 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-ategol-ar-gyfer-dysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-15-mawrth-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cefnogi sylfeini dysgu

Cynnydd dysgwyr

Rhannu dulliau gweithredu

Cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru

Y bwriad yw eu cefnogi i feddwl a chynllunio wrth drosglwyddo i ddysgu wyneb yn wyneb a helpu dysgwyr i barhau i wneud cynnydd. Dylai ysgolion a lleoliadau barhau i gyfeirio at y **canllawiau dysgu**, sy'n nodi blaenoriaethau ar gyfer dysgu ar gyfer eleni a darllen y diweddariad hwn ar y cyd â hynny. Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn amlinellu cynllun manylach ar sut y byddwn yn cefnogi ysgolion a lleoliadau i fynd i'r afael ag effeithiau tymor canolig a hirdymor y tarfu a fu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae ysgolion a lleoliadau wedi ymateb i amryw o amgylchiadau heriol yn ystod y cyfnod hwn ac mae tystiolaeth gadarn o arfer da iawn. Mae'r cyfnod amrywiol o amser y mae dysgwyr wedi bod yn dysgu o bell a'u gallu i ymgysylltu â'r dysgu hwnnw yn golygu y bydd dysgwyr yn dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb o amrywiaeth o wahanol brofiadau cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol. Gall y rhain fod yn gadarnhaol ac yn negyddol ond byddant yn golygu bod dysgwyr yn dechrau o fan cychwyn gwahanol yn eu dysgu pan fyddant yn dychwelyd.

Cefnogi sylfeini dysgu

Mae'n hanfodol bod unrhyw ddull yn blaenoriaethu lles, hyder a chymhelliant dysgwyr. Dylai ysgolion a lleoliadau roi digon o amser i ddysgwyr adennill eu hyder, eu cymhelliant a'u mwynhad o fod yn yr ysgol eto, yn ogystal â'u perthynas â staff a dysgwyr eraill. Yn yr un modd, bydd dysgwyr yn elwa ar

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-ategol-ar-gyfer-dysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-15-mawrth-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

weithgareddau sy'n cefnogi eu lles meddyliol, cymdeithasol a chorfforol; gall gweithgareddau awyr agored a gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae (yn ogystal â gweithgareddau sy'n annog dysgwyr i fod yn greadigol, yn fynegiannol ac yn gydweithredol) fod yn arbennig o gefnogol i hyn waeth beth fo oedran y dysgwr. Mae'r ffocws hwn ar les yn alluogwr dysgu parhaus: wrth i ddysgwyr ymgysylltu â mwy o ddysgu, ni ellir colli nac anwybyddu'r sylfeini hyn.

Dylai dulliau dysgu hefyd gydnabod y bydd llawer o ddysgwyr yn croesawu'r cyfle i ddysgu mewn lleoliad corfforol eto. Mae ehangder y cwricwlwm, gan gynnwys yr agweddau ymarferol, yn hanfodol i ennyn diddordeb pob dysgwr. Dylai ysgolion a lleoliadau ochel rhag culhau dysgu a fyddai'n anfantais i gymhelliant a lles dysgwyr.

Er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cyfle gorau posibl i setlo'n ôl i ddysgu, mae angen i wasanaethau gydweithio i ddarparu'r cymorth cydgysylltiedig sydd ei angen ar blant a theuluoedd. Mae gennym eisoes seilwaith effeithiol ar waith i ddarparu cymorth a chefnogaeth gynnar i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd drwy ein gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf. Wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol ac wrth i faterion lles ehangach ddod i'r amlwg, dylai ysgolion a lleoliadau barhau i gyfeirio plant a theuluoedd y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i'r gwasanaethau ymyrraeth gynnar hyn.

Rydym hefyd yn parhau â dull eang o wella iechyd meddwl pobl ifanc, o atal ac ymyrryd yn gynnar i wella mynediad at wasanaethau arbenigol. Ceir rhagor o fanylion am fesurau ychwanegol ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Cynnydd dysgwyr

Bydd gan bob dysgwr ei anghenion dysgu penodol ei hun, gyda'i gyd-destun unigryw ei hun. Yn ystod y cyfnod nesaf, dylid canolbwyntio ar helpu dysgwyr i symud ymlaen o ble maent, yn hytrach na chanolbwyntio ar 'ddal i fyny' neu 'ddiffyg'. Bydd hyn yn dibynnu ar ddeall anghenion unigol dysgwyr: ble maent wedi gwneud cynnydd, lle mae'r cynnydd wedi bod yn gyfyngedig a sut y gellir eu helpu i ddatblygu eu cryfderau a chefnogi eu hanghenion datblygu. Dylai'r dull hwn ystyried sylfeini dysgu ac ni ddylai amharu ar hyder, cymhelliant, mwynhad na lles dysgwyr.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-ategol-ar-gyfer-dysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-15-mawrth-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae meithrin gwybodaeth a sgiliau, ac ymdrin â chysyniadau craidd i gefnogi cynnydd, yn parhau i fod yn flaenoriaeth a dylai barhau i fod yn ffocws o fewn dysgu ac addysgu.

Mae asesu yn rhan annatod o'r broses ddysgu a dros y cyfnod nesaf dylai asesu barhau i ganolbwyntio ar gefnogi dealltwriaeth o anghenion dysgwyr unigol, eu lles a nodi'r camau nesaf i'w cefnogi i symud ymlaen yn eu dysgu. Dylai dysgwyr fod yn rhan weithredol o'r broses hon, gydag adborth rheolaidd yn cael ei roi.

Er mwyn datblygu cyd-ddealltwriaeth o anghenion unigol dysgwyr a chefnogi cynnydd, dylai ymarferwyr gael trafodaethau rheolaidd gyda dysgwyr, rhieni a gofalgwyr. Mae trafodaethau gydag ymarferwyr eraill ac ysgolion a lleoliadau clwstwr hefyd yn bwysig i gefnogi pontio.

Er mwyn creu mwy o le a hyblygrwydd ar gyfer y dull mwy unigol hwn o asesu, byddwn yn datgymhwyso'r gofynion ar gyfer asesiadau diwedd cyfnod allweddol (y Cyfnod Sylfaen, Cyfnodau Allweddol 2 a 3) a'r gofynion cymedroli cysylltiedig.

Ein polisi ynghylch gofynion o ran asesiadau personol ac asesu parhaus ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3 yw y byddant yn parhau ar sail ymdrech resymol er mwyn galluogi athrawon i ddeall a chefnogi anghenion dysgwyr unigol. Bydd rhagor o wybodaeth am ddisgwyliadau ar gyfer asesiadau personol ac asesu parhaus yn cael ei darparu.

Dylai'r ddarpariaeth Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau presennol a fydd yn parhau yn nhymor yr haf a thu hwnt helpu i ddarparu cymorth pwrpasol ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol.

Gwyddom fod llawer o ysgolion eisoes wedi dechrau'r broses hon gyda dysgwyr y Cyfnod Sylfaen. Rydym yn croesawu ymrwymiad athrawon i dreulio'r amser yn gweithio gyda'u dysgwyr a'u cefnogi i ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb fel cam cyntaf i bawb.

Y Cyfnod Sylfaen

Mae profiadau addysgol cynnar plant ifanc yn bwysig iawn, ac mae'n rhaid

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-ategol-ar-gyfer-dysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-15-mawrth-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

defnyddio cymorth dysgu mewn ffordd sy'n ystyried oedran, galluoedd a chyfnod datblygiad y plentyn a natur y ddarpariaeth. Dylai cymorth fanteisio'n drwm ar arferion addysgeg cyfredol y Cyfnod Sylfaen.

Mae dysgu yn yr awyr agored a gweithgareddau chwarae sy'n canolbwyntio ar les a'r angen i gysylltu â'u cyfoedion a'r oedolion o'u cwmpas, yn arbennig o bwysig.

Mae rhyngweithio cymdeithasol plant â'u cyfoedion yn digwydd yn bennaf drwy chwarae, ac mae tystiolaeth yn dangos bod chwarae yn hanfodol bwysig ar gyfer datblygiad cymdeithasol, gwybyddol a llythrennedd plant. Mae chwarae yn eu helpu i wneud synnwyr o bethau y maent yn eu cael yn anodd eu deall, ac yn rhoi ymdeimlad o reolaeth ac annibyniaeth iddynt. Bydd dull sy'n canolbwyntio ar chwarae yn helpu plant ifanc wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol yn gorfforol ac yn helpu gyda'u hiechyd emosiynol tymor hwy, yn ogystal â darparu sylfaen gadarn ar gyfer dysgu nawr ac i'r dyfodol.

Mae'n hanfodol bod amser a lle'n cael eu neilltuo i sicrhau bod anghenion dysgu plentyn yn cael eu hasesu a'u deall, a'u bod yn cael eu cefnogi i symud ar eu cyflymder eu hunain. Rhaid osgoi unrhyw demtasiwn i symud i ddysgu mwy ffurfiol yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae **Proffil y Cyfnod Sylfaen**, sydd wedi'i seilio ar arsylwi, yn adnodd ffurfiannol sydd wedi'i hen sefydlu ar gyfer pob ymarferydd sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r Proffil Llawn yn cynnwys ystod ehangach o sgiliau sy'n cefnogi asesu wrth i blentyn symud drwy'r Cyfnod Sylfaen, yn ogystal â darparu dealltwriaeth o'i anghenion dysgu a datblygu. Gallai ymarferwyr ddefnyddio'r Proffil Llawn i gefnogi eu dealltwriaeth o anghenion dysgu a datblygu pob plentyn, a defnyddio'r adnodd i adolygu cynnydd yn rheolaidd.

Blynyddoedd cymwysterau

Bydd parhau i symud ymlaen yn eu dysgu yn helpu dysgwyr i fod â hyder wrth symud i'w camau nesaf mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. O gofio'r disgwyliadau dysgu ehangach, gall ysgolion a lleoliadau sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol hefyd ddefnyddio lle a hyblygrwydd i fynd i'r afael ag

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-ategol-ar-gyfer-dysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-15-mawrth-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

anghenion cyfredol fel y rhai sy'n gysylltiedig â graddau a bennir gan y ganolfan ar gyfer cymwysterau cyffredinol yr haf hwn.

Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn creu adnoddau e-ddysgu i gefnogi dysgwyr i baratoi ar gyfer eu hasesiadau TGAU a Safon Uwch. Mae adnoddau eisoes ar gael drwy **CBAC** a **Hwb** i gefnogi paratoi ar gyfer asesiadau, a gellir defnyddio'r rhain hefyd i alluogi dysgwyr i ymdrin ag agweddau ar faes llafur nad ydynt wedi ymdrin â nhw eto oherwydd y tarfu. Bydd adnoddau hefyd ar gael ym mis Ebrill i gefnogi dysgwyr yn y cyfnod pontio o Flwyddyn 11 i 12; o flwyddyn 12 i 13 ac i flwyddyn gyntaf eu profiad yn y brifysgol. Yn ogystal, byddwn yn cydweithio ag ysgolion, lleoliadau, colegau a phrifysgolion yng Nghymru i'w cefnogi i wella a chyfoethogi'r broses o bontio i ddysgwyr.

Pan fo dysgwyr yn bwriadu symud ymlaen i leoliad addysgol newydd – boed hynny'n ysgol wahanol, coleg addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith neu brifysgol – ysgolion a lleoliadau sy'n gyfrifol am eu cefnogi a'u paratoi ar gyfer y trosglwyddo. Bydd llawer o ddysgwyr yn bryderus ynghylch symud ymlaen i amgylchedd newydd a rhaglen ddysgu newydd, yn sgil yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Efallai y bydd ganddynt fylchau yn eu gwybodaeth a fydd yn effeithio ar gam nesaf eu dysgu.

Dylai ysgolion a lleoliadau gydweithio'n agos â darparwr dysgu sy'n 'derbyn' i sicrhau bod y broses bontio yn llyfn, gan gynnwys **rhannu gwybodaeth** fel y gall y darparwr newydd gefnogi anghenion dysgu a lles yr unigolyn yn llawn.

Rhannu dulliau gweithredu

Mae digon o lwyddiannau i'w rhannu o'r flwyddyn ddiwethaf a bydd llwyddiannau pellach i adeiladu arnynt yn y cam nesaf. Dylai ysgolion a lleoliadau geisio deall yr egwyddorion sy'n sail i ddulliau eraill a pham mae'r dulliau hynny wedi bod yn effeithiol, yn hytrach na cheisio mabwysiadu ateb a ddatblygwyd mewn cyd-destun arall. Mae hyn yn rhoi cyfle gwirioneddol i adeiladu ar yr egwyddorion hyn a'u cymhwyso i ddysgu wyneb yn wyneb: yn arbennig, defnyddio dulliau dysgu cyfunol ac adeiladu ar sgiliau digidol gwell.

Dylai ysgolion a lleoliadau geisio rhannu a myfyrio ar wahanol ddulliau. Mae gan

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-ategol-ar-gyfer-dysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-15-mawrth-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, sefydliadau addysg bellach ac uwch, Estyn a phartneriaid eraill sy'n cefnogi rôl bwysig iawn o ran helpu i rannu'r dulliau hyn. Mae cyflwyno dysgu ôl-16 ar y cyd, er enghraifft rhwng ysgolion a cholegau, yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i helpu dysgwyr i ddal i fyny a chynnig rhaglen ddysgu gyfoethog ac amrywiol iddynt fel y gallant wneud y dewisiadau gorau.

Cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru

Fel y **cyhoeddwyd** gan y Gweinidog Addysg, bydd £72 miliwn ychwanegol ar gael i gefnogi dysgwyr yn uniongyrchol fel rhan o'r ymateb mewn perthynas ag adfer a sicrhau cynnydd (gan gynnwys parhau â chymorth Recriwtio, Adfer, a Chodi Safonau i'r blynyddoedd cynnar, dysgwyr sy'n agored i niwed, a blynyddoedd cymwysterau). Mae £15m hefyd ar gael i gefnogi dysgwyr dan anfantais a dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yn nhymor yr haf, byddwn yn amlinellu cynllun i gefnogi ysgolion a lleoliadau i fynd i'r afael ag effeithiau tymor canolig a hirdymor y tarfu. Byddwn yn cydweithio ag ymarferwyr a phartneriaid wrth ei ddatblygu. Nod y cynllun hwn fydd sicrhau bod y sylfeini hirdymor yn eu lle ar gyfer dysgu i bob dysgwr a bod dysgu ac addysgu o ansawdd uchel ar gael i'w galluogi i symud ymlaen. Rydym yn cydnabod bod ar ymarferwyr lawer o ofynion sy'n cystadlu â'i gilydd. Mae creu lle ar eu cyfer yn hanfodol i'r dull hwn a bydd yn rhan allweddol o unrhyw gynllun.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-ategol-ar-gyfer-dysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-15-mawrth-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Gwybodaeth ategol ar gyfer dysgu mewn ysgolion a lleoliadau o 15 Mawrth](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-ategol-ar-gyfer-dysgu-mewn-ysgolion-leoliadau-o-15-mawrth-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwybodaeth-ategol-ar-gyfer-dysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-15-mawrth-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).